BRO MORGANNWG

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD 2021-2036

# CYNLLUN SEILWAITH

Tachwedd 2025



PAPUR CEFNDIR - BP44

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

**Crynodeb gweithredol**

i. Mae'r Cynllun Cyflawni Seilwaith (CCS) hwn yn ddogfen gefndir allweddol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Bro Morgannwg 2021-2036. Mae'r papur yn amlinellu'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi amcanion strategol y CDLIN, gyda ffocws ar ddull hirdymor, cynaliadwy a chydweithredol o ddatblygu. Mae'r CCS yn nodi seilwaith presennol, yn tynnu sylw at welliannau wedi'u cynllunio, ac yn rhoi manylion am y seilwaith newydd sy'n ganolog i agor datblygiad safleoedd sydd wedi eu dyrannu.

ii. Mae'r ddogfen yn cwmpasu ystod eang o gategorïau seilwaith, gan gynnwys trafnidiaeth (teithio llesol, ffyrdd, rheilffyrdd a bysus), addysg, iechyd, seilwaith gwyrdd, rheoli amgylcheddol, cyfleustodau, a chyfleusterau cymunedol. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd alinio â pholisïau cenedlaethol a lleol, fel Polisi Cynllunio Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n rhoi blaenoriaeth i gynaliadwyedd, creu lleoedd, a chydweithio â phartneriaid allweddol.

iii. Mae'r CCS yn nodi'r angen am ysgolion newydd, uwchraddio i'r rhwydwaith trafnidiaeth i gefnogi teithio cynaliadwy, a darparu cyfleustodau amserol fel dŵr a thrydan. Mae'r ddogfen hefyd yn tynnu sylw at rôl cyfraniadau datblygwyr trwy gytundebau Adran 106 i ariannu'r gwelliannau angenrheidiol hyn. Mae'r CCS yn ddogfen fyw fydd yn cael ei diweddaru'n barhaus i sicrhau bod cyflenwi seilwaith yn cadw i fyny ag amcanion y CDLIN.

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

